Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.




# Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa: Plant yn y Ddalfa

**28 Awst 2024**

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**
**Ysgrifennwyd gan: Tom Walters**

# Cynnwys

**Trosolwg, Cefndir, Pwrpas a Methodoleg** ........ 2
**Crynodeb o Ganfyddiadau** ........ 5
**Arsylwadau'r Panel** ........ 8
**Canfyddiadau'r Adolygiad o Gofnodion Dalfeydd** ........ 13

# Trosolwg, Cefndir, Pwrpas a Methodoleg

Yn 2022, nododd Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu a Chymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu mai prin oedd y craffu annibynnol ar anghymesuredd a dalfeydd mewn heddluoedd ledled Cymru a Lloegr. Yn dilyn nifer o ddigwyddiadau proffil uchel yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bu gostyngiad yn hyder y cyhoedd yn y modd y mae'r heddlu'n trin y cyhoedd.

Mae Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a Chyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu wedi awgrymu y byddai panel craffu annibynnol ar gadw yn y ddalfa yn gwella tryloywder, yn cynyddu hyder y cyhoedd ac yn nodi arferion da a gwael.

Diben cyffredinol y Panel Craffu Annibynnol ar Gadw yn y Ddalfa yw sicrhau bod gweithdrefnau dalfeydd a chadw yr heddlu yn Nyfed-Powys yn gymesur, yn gyfreithlon ac yn angenrheidiol.

Mae aelodaeth y panel craffu yn cynnwys gwirfoddolwyr presennol (ond nid yn gyfyngedig iddynt) o blith:

1) Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa
2) Panel Sicrhau Ansawdd

Yn ogystal ag aelodau’r panel, roedd rhingyll dalfa a chynrychiolaeth o Dîm Sicrwydd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh) yn cynorthwyo’r broses graffu. Roedd hyn er mwyn cynorthwyo i roi cyngor proffesiynol i’r panel pe bai ganddynt unrhyw ymholiadau mewn perthynas â’r canlynol:

- Y prosesau a'r gweithdrefnau yn y ddalfa mewn perthynas â phlant yn y ddalfa.
- Unrhyw gwestiynau ar y ffurflenni electronig (e-ffurflenni) a ddefnyddiwyd i gofnodi a darparu adborth at ddibenion y craffu hwn.


Dewiswyd yr achosion ar hap a'u cyflenwi gan yr heddlu, gan ganolbwyntio ar blant yn y ddalfa, plant yn cael eu cadw yn y ddalfa a noeth-chwiliadau yn y ddalfa.

Mae’r gwirfoddolwyr yn ymwybodol o adran 1(8)(h) o Ddeddf Diwygio’r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 a chyfrifoldeb Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh) i ddwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif am ddiogelu plant o dan adrannau 10 ac 11 o Ddeddf Plant 2004 ar ôl cyfarfod o Banel Craffu Annibynnol y Ddalfa blaenorol a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2024. Mae manylion a chanfyddiadau’r adroddiad hwnnw i’w gweld ar ein tudalen we: Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys (dyfedpowys-pcc.org.uk/cy).

I gynorthwyo dealltwriaeth y gwirfoddolwyr hefyd, cyn y cyfarfod, rhoddwyd briff i’r gwirfoddolwyr ar Adroddiad y Comisiynydd Plant, a gyhoeddwyd ar 19 Awst 2024. O fewn yr adroddiad, cynhaliwyd arolwg cenedlaethol i asesu'r arfer o noeth-chwilio plant gan yr heddlu.

*“Adroddwyd am gyfanswm o 3,368 o noeth-chwiliadau o blant dan bwerau stopio a chwilio yng Nghymru a Lloegr rhwng 2018 a Mehefin 2023. Mae hyn yn gynnydd o 521 o chwiliadau ers adroddiad blaenorol y Comisiynydd Plant a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2023, a gyflwynodd ddata gan 39 o heddluoedd ar adroddiadau am chwiliadau rhwng 2018 a Mehefin 2022. Mae’r data ychwanegol hwn yn cynnwys 64 o chwiliadau a gynhaliwyd rhwng 2018 a Mehefin 2022, a 457 o chwiliadau a gynhaliwyd rhwng Gorffennaf 2022 a Mehefin 2023.”*

Roedd y data’n dangos bod Heddlu Dyfed-Powys wedi cofnodi’r gyfradd uchaf o noeth-chwiliadau plant yn genedlaethol fel y dangosir yn y tabl isod:




*(Ffigur 4. Cyfradd chwilio plant fel cyfran o gyfanswm poblogaeth plant rhwng 10 a 17 oed ym mhob ardal heddlu rhwng Gorffennaf 2022 a Mehefin 2023).*

Mae'n werth nodi, ers yr adroddiad cyhoeddedig, fod Heddlu Dyfed-Powys wedi ymateb drwy nodi bod y data a ddarparwyd i'r Comisiynydd Plant yn anghywir. Yn y datganiad cyhoeddus, nododd Heddlu Dyfed-Powys: *"Gallwn gadarnhau mai saith noeth-chwiliad a gynhaliwyd gan swyddogion Heddlu Dyfed-Powys ar blant rhwng Ionawr 2018 a Gorffennaf 2023.*

*O ystyried yr amserlen lai y canolbwyntiwyd arni yn adroddiad y Comisiynydd Plant, sef rhwng mis Mehefin 2022 a mis Gorffennaf 2023, dim ond un noeth-chwiliad a gynhaliwyd ar blant yn ardal ein heddlu."*

Yn sgil cyhoedd adroddiad y Comisiynydd Plant, gofynnwyd i'r panel roi sylw penodol i noeth-chwiliadau a gynhaliwyd ar blant, p'un a oedd oedolyn priodol yn bresennol a ph'un a oedd rhesymeg wedi'i chofnodi.

Yn ogystal ag adolygu noeth-chwiliadau, gofynnwyd i'r panel hefyd asesu:

- Plant sy'n cael eu cadw ar remand yn y ddalfa, a ph'un a geisiwyd trefnu llety arall.
- Y rhesymeg dros fod y cyfnod amser rhwng cyrraedd a chofnodi cadw yn y ddalfa yn fwy na 30 munud.
- Y rhesymeg dros unrhyw oedi yn amser cyrraedd yr oedolyn priodol ar ôl cysylltu.

Dyma enghraifft o'r set o gwestiynau y gofynnwyd i'r panel eu hystyried:

# Crynodeb o Ganfyddiadau

I grynhoi'r canfyddiadau, asesiad ac adborth cyffredinol y panel oedd fod y 21 o gofnodion dalfeydd a adolygwyd wedi sgorio sgôr gyfartalog gyffredinol o 4.2 allan o 5.

Isod mae crynodeb o rai o ganfyddiadau'r panel:

## Pwyntiau cadarnhaol:

**Noeth-chwiliad**

O'r pedwar noeth-chwiliad a ddigwyddodd, roedd y pedwar yn rhoi sail resymegol dda dros gynnal hyn; fodd bynnag, o'r pedwar, dim ond tri oedd ag oedolyn priodol yn bresennol tra bod y noeth-chwiliad yn cael ei gynnal. Cofnodwyd ffactorau lliniarol gan y panel a nododd fod un unigolyn ifanc wedi gofyn i'r oedolyn priodol gamu y tu allan, a bod un arall yn cael ei gofnodi fel noeth-chwiliad er bod yr unigolyn ifanc wedi gofyn am drowsus y ddalfa gan fod ei ddillad ei hun yn llaith ac nad oedd yn gwisgo dillad isaf.

**Oedolion priodol**

Ym mhob un o'r 21 achos, barnwyd bod oedolyn priodol yn angenrheidiol a chafodd pob plentyn a oedd yn y ddalfa oedolyn priodol yn bresennol sy'n gyson o adolygiad blaenorol y panel.

**Amser yn y ddalfa**

Yr amser cyfartalog a aeth heibio rhwng cyrraedd ac awdurdodi cadw oedd 14 munud. O gymharu ag adroddiad Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa ym mis Mawrth, roedd hyn yn 29 munud; felly, gostyngiad o 15 munud mewn awdurdodi plant yn y ddalfa.

**Hawliau**

Rhoddwyd hawliau i bob unigolyn ifanc naill ai yn ystod y cam cofnodi neu'n hwyrach. O'r 21 cofnod, cynigiwyd i 20 ohonynt siarad â chyfreithiwr, ac ni fu modd dod o hyd i’r cofnod arall.

**Gofal iechyd**

O'r 21 o gofnodion, gwelodd 19 o’r unigolion ifanc a oedd yn y ddalfa weithiwr gofal iechyd proffesiynol, ac un yn unig brofodd oedi.

**Dillad risg arbennig**

Roedd 5 o'r 21 unigolyn ifanc a oedd yn y ddalfa yn gwisgo dillad risg arbennig. Mewn un achos a arsylwyd, roedd cofnod unigolyn ifanc yn y ddalfa yn dangos bod y dillad risg arbennig yn cael eu defnyddio dim ond pan oedd angen, bod sail resymegol fanwl wedi'i darparu ar gyfer eu defnyddio a bod tystiolaeth o eitemau dad-ddwysáu/tynnu sylw a/neu ddulliau eraill o leihau risg yr unigolion yn y ddalfa.Trafodwyd yr un cofnod hefyd yn ystod y cyfarfod trosglwyddo ar ddiwedd shifft a chafodd y dillad risg arbennig eu tynnu cyn gynted â phosibl.

## Meysydd i’w gwella:

**Plant yn y Ddalfa**

O'r 21 achos o blant yn y ddalfa a adolygwyd, cafodd 8 eu cadw dros nos ac un yn unig gafodd fynd i lety arall. Er y darparwyd sail resymegol ar gyfer y rhan fwyaf o gofnodion dalfeydd, roedd pedwar achos lle na nodwyd y sail resymegol. Yn ogystal, o’r cofnodion a adolygwyd, mae 16 o gofnodion yn dangos bod y rhestr wirio plant wedi’i defnyddio. Er bod y nifer hwn yn dal i awgrymu cyfradd cwblhau 76%, mae hwn yn faes i'w wella o hyd i'r heddlu.

**Oedolion priodol**

Yr amser cyfartalog a gymerwyd i’r ddalfa gysylltu ag oedolyn priodol ar ôl awdurdodi cyfnod yn y ddalfa oedd 2 awr a 57 munud gydag amser oedi cyfartalog o 2 awr a 2 funud ar gyfer y cyswllt cyntaf rhwng yr oedolyn priodol a’r plentyn yn y ddalfa. Dim ond pedwar cofnod oedd yn cynnwys sail resymegol ac nid oedd hyn wedi'i gofnodi yn y cofnodion eraill.

**Dillad risg arbennig**

O'r pump unigolyn ifanc hynny a oedd yn gwisgo dillad risg arbennig, nid oedd gan un ohonynt resymeg gofnodedig. Mae hyn yn gynnydd o dri chofnod o ddefnyddio dillad risg arbennig ar blant yn y ddalfa o'i gymharu ag adroddiad Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa ym mis Mawrth, a roddodd hefyd resymeg 100% ar gyfer eu defnyddio.

**Benyw**

O'r naw o ferched ifanc a oedd yn y ddalfa, neilltuwyd swyddog benywaidd i wyth a chynigiwyd cynhyrchion mislif i'r wyth ohonynt. Er bod 89% o ferched ifanc wedi cael swyddog o'r un rhyw a chynhyrchion hylendid, mae hyn yn ostyngiad o adroddiad Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa diwethaf ar blant yn y ddalfa ym mis Mawrth, a nododd fod yr holl ferched ifanc wedi cael swyddog benywaidd penodedig.

**Amser yn y ddalfa**

Yr amser cyfartalog y cadwyd unigolyn ifanc yn y ddalfa oedd 18 awr ac 13 munud a'r amser cyfartalog a aeth heibio rhwng cyrraedd a chadw awdurdodedig oedd 14 munud. O'i gymharu ag adroddiad Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa ym mis Mawrth, yr amser cyfartalog y cafodd unigolyn ifanc ei gadw yn y ddalfa oedd 12 awr ac 8 munud a'r amser cyfartalog a aeth heibio rhwng cyrraedd a chadw awdurdodedig oedd 29 munud.

# Arsylwadau’r Panel

Lluniwyd sylwadau'r heddlu gan Jenna Jones, Prif Arolygydd y Ddalfa yn Heddlu Dyfed-Powys.

| Thema | Arsylwadau | Ymateb yr heddlu |
|---|---|---|
| **Plant yn y Ddalfa** | O'r 21 plentyn yn y ddalfa, cadwyd 13 dros nos a chwiliwyd am lety arall i un ohonynt.<br>Y rhesymau a nodwyd dros gadw unigolyn ifanc dros nos yn y ddalfa oedd:<br>- Nid oedd yr unigolyn yn y ddalfa yn ymgysylltu'n llawn.<br>- Gwrthodwyd mechnïaeth iddo.<br>- Nid oedd yn briodol i'r unigolyn ifanc ddychwelyd i'r cartref gofal.<br>- Nid oedd yn briodol dychwelyd i'r cartref maeth, am fod y digwyddiad wedi digwydd yn y lleoliad hwn.<br>- Nid oedd y gwasanaethau cymdeithasol yn gallu darparu llety arall. | Mae plant mewn achosion sydd wedi eu cadw ar remand yn y ddalfa yn cael eu hadolygu gan Brif Arolygydd Plant yn y Ddalfa bob mis, a chyflwynir adroddiad hefyd i Lywodraeth Cymru.<br><br>Mae'r rhesymau a nodwyd dros gadw unigolyn ifanc yn y ddalfa i gyd yn briodol. Rwy’n hyderus bod holl staff y ddalfa yn gweld hyn fel y dewis os bydd popeth arall yn methu.<br><br>Yn anffodus, nid oes gennym lety diogel ar gael i ni. Gofynnir hyn i'r gwasanaethau cymdeithasol ar bob achlysur a chofnodir yng nghofnod y ddalfa nad yw ar gael. |
| **Rhestr Wirio Plant** | Mewn un mater adeg cyraeddadwy', ni chymerwyd unrhyw gamau oherwydd i'r swyddog nodi nad oedd wedi derbyn unrhyw hyfforddiant ar y pwnc.<br><br>Ar bum achlysur, ni chwblhawyd y rhestr wirio 23 pwynt. | Byddaf yn mynd i’r afael â’r sylw gan nad yw hyn yn briodol ar gofnod y ddalfa. Dylai ‘adegau cyraeddadwy’ gael eu cwblhau gan unigolyn nad yw’n staff heddlu ac sydd wedi’i hyfforddi’n briodol. Mae cynlluniau ar y gweill i’n staff gofal iechyd proffesiynol gwblhau'r hyfforddiant |

| | | |
|---|---|---|
| | | hwn a chynnal cyfweliadau o'r fath pan fyddant yn gweld y plentyn.<br><br>Mae rhestr wirio newydd yn cael ei chwblhau a byddwn yn holi a oes modd ychwanegu hon at system Niche (meddalwedd cofnodion dalfa'r heddlu). Ar hyn o bryd mae hon yn dasg i'r staff ei chyflawni â llaw ac rydym hefyd wedi sylwi ei bod yn cael ei hepgor ar adegau. Bydd y rhestr newydd yn mynd allan gyda chyfarwyddiadau penodol ar sut i'w defnyddio gyda phob plentyn yn y ddalfa.<br><br>Rydym hefyd yn canolbwyntio ar 'lais y plentyn' yn fwy na'r adegau cyraeddadwy ar gyfer ein staff dalfeydd, gan eu galluogi i adrodd i'r tîm ymchwilio am unrhyw ymddygiad/geiriau sy'n peri pryder a ddefnyddir iddynt ystyried unrhyw atgyfeiriadau pellach am gymorth. |
| **Tynnu dillad** | Ni roddwyd yr unigolyn yn y ddalfa mewn dillad risg arbennig ond gofynnwyd iddo dynnu ei ddillad ei hun a'i roi yn nillad llwyd y ddalfa oherwydd 'cortynnau' yn ei ddillad ei hunan. A yw hyn yn cael ei ystyried yn weithdrefn safonol? | Gellir ei egluro oherwydd dylid cynnal asesiad risg ac os oes gan blentyn neu oedolyn gortynnau yn eu dillad, gofynnir iddynt naill ai eu tynnu ac aros yn eu dillad eu hunain neu gellir darparu dillad llwydion y ddalfa iddynt. Dylid cofnodi hyn fel noeth-chwiliad a'i gofnodi fel noeth-chwiliad <u>Davies V Glannau Mersi.</u> Ar hyn o bryd rydym yn monitro'r math hwn o |

| | | |
|---|---|---|
| | Nododd un adroddiad nad oedd 'dim grym yn cael ei ddefnyddio' a oedd i'w weld yn cael ei wrth-ddweud yn ddiweddarach yn y cofnod gan ddweud bod grym yn cael ei ddefnyddio i dynnu cot ac esgidiau. A ellir egluro hyn? | gofnodion chwilio yn ein harchwiliadau.<br><br>O adolygu'r cofnod, mae'r adroddiad cychwynnol ar gofnod y cynllun gofal yn nodi nad oedd unrhyw rym wedi'i ddefnyddio, ac ar y pryd nid oedd grym wedi'i ddefnyddio. Roedd oedolyn priodol (mam) wedi gwrthod aros gyda'r unigolyn ifanc yn yr ystafell gadw felly mae swyddogion wedi gorfod tynnu ei hesgidiau a'i chôt (fel y byddai gydag unrhyw un a ddrwgdybir yn y ddalfa) i gynnal chwiliad. Ar y pwynt hwn roedd yr unigolyn ifanc wedi dechrau mynd yn dreisgar felly defnyddiwyd grym. Nid oes gennyf unrhyw broblemau gyda'r defnydd o rym yn y cofnod hwn. Fodd bynnag, dylai cynlluniau gofal fod wedi cael eu defnyddio i ddiweddaru'r cofnod yn fwy trylwyr wrth sefydlu'r newidiadau risg a'r ffaith y defnyddiwyd grym wedyn. Bydd hyn yn cael ei fwydo'n ôl i'r arolygydd lleol i'w drafod â rhingyll yr heddlu. |
| **Dillad Risg Arbennig** | Yn gyffredinol, nododd y panel, yn y pum achos lle rhoddwyd dillad risg arbennig, fod pob un o'r pump achos yn nodi'r rhesymeg fod dillad yr unigolyn ifanc yn y ddalfa yn peri risg oherwydd cortynnau.<br>Mewn un achos, ni chofnodwyd y rhesymeg dros roi dillad risg arbennig. | Rwyf wedi adolygu cofnod y ddalfa ac ni allaf weld gwybodaeth sy'n awgrymu bod grym wedi'i ddefnyddio. Tynnwyd siwmper â chwfl yr unigolyn ifanc oherwydd cortynnau heb unrhyw sail resymegol ynghylch hyn, ond nid oes unrhyw sôn am ddefnyddio'r dillad risg arbennig yn y cofnod. Ni chredaf fod yr unigolyn ifanc wedi cael dillad |


| | | |
|---|---|---|
| | | risg arbennig gan ei bod wedi'i gosod yn gywir ar arsylwadau lefel 4. |
| **Noeth-chwiliad** | O'r 21 o gofnodion a adolygwyd, cynhaliwyd noeth-chwiliad o bedwar unigolyn yn y ddalfa.<br><br>Nododd aelod o'r panel mai'r rheswm a nodwyd fod yr unigolyn ifanc yn y ddalfa wedi cael ei noeth-chwilio oedd bod ei ddillad yn llaith ac â chortynnau. Yn yr achos penodol hwn nid oedd oedolyn priodol yn bresennol. | Fel yr uchod o ran y noeth-chwiliad, cofnodir hyn yn unol â deddfwriaeth Davies v Glannau Mersi.<br><br>Diddorol nodi nad oedd oedolyn priodol yn bresennol, tybed a oes angen hyn gan y byddent yn cael preifatrwydd i newid i'r dillad felly nid yw'n noeth-chwiliad swyddogol fel y cyfryw. Byddaf yn gwirio ond byddwn yn awgrymu nad oes angen oedolyn priodol ar y math hwn o noeth-chwiliad. |
| **Oedolion Priodol** | Dywedodd y panel ym mhob un o'r 21 o achosion a adolygwyd y barnwyd bod angen oedolyn priodol. Fodd bynnag, o'r wyth achos lle bu oedi, dim ond pedwar oedd wedi cofnodi eu rhesymeg.<br><br>A yw'r amser cyfartalog i swyddog y ddalfa gysylltu ag oedolyn priodol yn 2 awr a 57 munud, yn cael ei ystyried yn arfer da? | Byddaf yn anfon adborth am hyn at y staff. Dylid cysylltu ag oedolion priodol ar y cyfle cyntaf ac mae angen dogfennu hyn.<br><br>Dylid cofnodi unrhyw oedi mewn cysylltu ynghyd â'r rhesymeg. |
| **Iechyd Meddwl** | Nododd y panel fod staff y ddalfa yn dogfennu gwybodaeth am bryderon iechyd meddwl yn gynhwysfawr ac yn defnyddio eu harsylwadau eu hunain ochr yn ochr â sylwadau a nodwyd | Mae hwn yn adborth da iawn; byddaf yn sicrhau bod y staff yn cael gwybod am yr adborth hwn ar waith da. |

| | | |
|---|---|---|
| | gan yr unigolyn ifanc yn y ddalfa. Roedd hyd yn oed un achos lle cafodd plentyn ddiagnosis o awtistiaeth am y tro cyntaf tra yn y ddalfa. | |
| **Gweithiwr gofal iechyd proffesiynol** | Ymddengys bod negeseuon yn gwrthdaro yn y cofnod hwn, lle cofnodwyd bod yr unigolyn yn y ddalfa yn gweld gweithiwr gofal iechyd proffesiynol, nododd arolygydd fod hyn wedi digwydd; fodd bynnag, nid oes unrhyw gofnod bod yr unigolyn yn y ddalfa wedi gweld y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol mewn gwirionedd. Mewn cofnod pellach, gofynnodd adolygiad arolygydd a oedd yr unigolyn yn y ddalfa wedi gweld gweithiwr gofal iechyd proffesiynol lle na chofnodwyd unrhyw ymateb. | Byddaf yn adolygu ac yn adrodd hyn yn ôl i'r staff sy'n ymwneud â'r cofnod cadw hwn. |
| **Cynrychiolydd cyfreithiol** | Dim ond ar bedwar achlysur y nododd y panel fod rhesymeg wedi'i darparu i egluro'r rheswm dros yr oedi ac ar un achlysur ni chanfuwyd unrhyw resymeg. | Byddaf yn adolygu ac yn adrodd hyn yn ôl i'r staff sy'n ymwneud â'r cofnod cadw hwn. |


# Canfyddiadau'r Adolygiad o Gofnodion Dalfeydd


Mae'r data isod yn amlinellu canlyniadau'r ffurflenni adborth a gwblhawyd gan aelodau'r panel a ddadansoddwyd i nodi'r pethau cadarnhaol a'r meysydd sydd angen eu gwella ym mhob maes penodol yn y ddalfa gan ganolbwyntio ar blant yn y ddalfa.


**Dalfeydd**




## Demograffeg








## Amser cyrraedd y ddalfa



## Amseroedd a awdurdodwyd i'r ddalfa





## Aeth amser heibio rhwng cyrraedd ac awdurdodi eu cadw


- Yr amser cyfartalog a aeth heibio o'r adeg y cyrhaeddodd yr unigolyn y ddalfa a'i awdurdodi i'w gadw oedd 14 munud.
- Yr amser aros hiraf oedd un awr.
- Yr amser cyflymaf i unigolyn yn y ddalfa gael ei awdurdodi i'w gadw oedd dwy funud.


## Cyfanswm yr amser yn y ddalfa

- Yr amser cyfartalog y cafodd unigolyn ei gadw yn y ddalfa oedd 18 awr ac 13 munud.
- Yr amser hiraf i unigolyn gael ei gadw yn y ddalfa oedd dau ddiwrnod 10 awr.
- Mewn cyferbyniad, yr amser byrraf i unigolyn gael ei gadw yn y ddalfa oedd 16 munud.

## Darpariaethau yn y Ddalfa













## Carcharorion Benywaidd








## Ceisiadau hylendid





- Asesodd y panel yn gyffredinol fod y cwmpas hylendid yn dda, bod gwiriadau'n cael eu cynnal yn rheolaidd a bod yr unigolion yn y ddalfa yn derbyn gofal.
- Ar gyfer un unigolyn, nodwyd ei fod yn y ddalfa am dros bedair awr ac heblaw am gynnig dŵr yn ystod y 32 munud cychwynnol, ni chynigiwyd unrhyw beth arall.


### Sgôr Rhybudd Cynnar yn y Ddalfa





- Mae system Sgôr Rhybudd Cynnar yn y Ddalfa wedi’i hychwanegu at broses asesu risg safonol arferol yr heddlu i nodi afiachedd a risg marwolaethau yn y ddalfa.

### Hawliau







**Pa mor hir, ar ôl cael awdurdodi ei gadw yn y ddalfa, y gofynnodd yr unigolyn yn y ddalfa am gyfreithiwr?**

- Yr amser cyfartalog a gymerodd i'r unigolyn yn y ddalfa ofyn am gyfreithiwr oedd 22 munud.
- Mewn 10 o'r achosion, gwnaeth yr unigolyn yn y ddalfa gais am gyfreithiwr o fewn 25 munud.
- Y cyfnod hiraf cyn i unigolyn yn y ddalfa ofyn am gyfreithiwr oedd dwy awr a 42 munud.
- Roedd 69% o'r unigolion a oedd yn cael eu cadw yn y ddalfa wedi gweld neu'n siarad â chyfreithiwr yn ystod eu carchariad.




**Yr amser a gymerodd i'r heddlu gysylltu â chyfreithiwr**

- Yr amser cyfartalog a gymerodd oedd un awr 26 munud i'r heddlu gysylltu â chyfreithiwr ar ddyletswydd.
- Y cyfnod hiraf o amser oedd tair awr a 30 munud.
- Yr amser byrraf oedd yn syth ar ôl cael y cais.

**Yr amser a gymerodd i gyfreithiwr gyrraedd o'r pwynt cysylltu**


- Yr amser cyfartalog i gyfreithiwr gyrraedd oedd un awr a 46 munud.
- Roedd un achlysur pan gyrhaeddodd cyfreithiwr ar ôl 10 awr o gadw'r unigolyn yn y ddalfa.
- Yr amser byrraf a nodwyd oedd ar unwaith.
- Dim ond ar bedwar achlysur yr oedd y panel wedi nodi sail resymegol i egluro'r rheswm dros yr oedi. Ar un achlysur ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw sail resymegol.


- Nododd y panel hefyd fod nifer o garcharorion ifanc wedi gwrthod yr opsiwn o gyfarfod â chwnsler cyfreithiol. Un rheswm am rywfaint o oedi oedd fod y plant yn y ddalfa yn cysgu, argaeledd cyfreithiwr, a throsglwyddo un unigolyn o un ddalfa i un arall.

**Lefel arsylwi**





- Bernir lefel y risg ar bedair lefel.
- Lefel 1 Cyffredinol (o leiaf unwaith yr awr)
- Lefel 2 Ysbeidiol (bob 30 munud)
- Lefel 3 Cyson (arsylwi cyson ar deledu cylch cyfyng ac yn hygyrch bob amser)
- Lefel 4 Yn Gorfforol Agos (dan oruchwyliaeth gorfforol agos).
- Cofnododd y panel gadarnhad 100% bod holl risgiau yr unigolyn yn y ddalfa wedi’u hystyried a’r rhesymeg wedi’i chofnodi.
- Nododd nifer o aelodau'r panel fod y lefelau arsylwi yn cael eu hisraddio o raddio lefel risg uwch i lefel 1 yn briodol yn ystod cyfnod cadw'r unigolion yn y ddalfa a'u bod yn cael eu monitro'n rheolaidd.



## Gwasanaethau Cefnogi




- Cynigiwyd gwasanaethau cymorth i 62% o unigolion yn y ddalfa, ac ni chynigiwyd gwasanaethau cymorth i 24%.
- Nododd y panel fod nifer o unigolion ifanc yn y ddalfa eisoes yn cael eu cefnogi gan asiantaethau fel Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed, Tîm Troseddau Ieuenctid, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a gwasanaethau cymdeithasol.


## Gweithiwr gofal iechyd proffesiynol a Dillad Risg Arbennig a *elwid gynt yn ddillad gwrth-rwygo*


| Rheswm dros y Dyfarniad | Camau Dilynol |
|---|---|
| Cwymplen mewn defnydd a rhesymeg lawn dros ddefnyddio'r dillad, sy'n gyfiawnadwy ac yn gymesur i'r perygl a gyflwynir. | |
| Tynnwyd y dillad i ffwrdd cyn gynted ag y bo'n ymarferol. | |
| Dad-ddwysáu clir, a defnyddiwyd eitemau tynnu sylw ac ati er mwyn lleihau'r perygl y byddai'r carcharor yn niweidio ei hun yn fwriadol. | Does dim angen camau gweithredu pellach ar hyn o bryd. |
| Ychydig iawn o gyfiawnhad, neu gyfiawnhad aneglur, dros ddefnyddio'r dillad. | |
| Gwybodaeth annigonol ar gyfer pennu cymesuredd defnyddio'r dillad. | |
| Gadawyd y carcharor yn y dillad am gyfnod hir. | Rhoddwyd hyfforddiant/cyngor pellach i staff y ddalfa. |
| Nodwyd drwy'r gwymplen fod y dillad wedi'u defnyddio, ond ni roddwyd gwybodaeth bellach. | |
| Defnyddiwyd y dillad yn absenoldeb gwybodaeth risg ond ni nodwyd rhesymau eraill. | |
| Defnyddiwyd y dillad gan yr heddlu ond ni roddwyd gwybodaeth bellach. | Mae angen archwilio ymhellach i'r defnydd/rhesymeg. Achosion i'w codi gydag arolygydd y ddalfa. |

| | |
|---|---|
| Ni ddefnyddiwyd y gwymplen. Darganfu gwybodaeth am y dillad fel rhan o adolygiadau rheolaidd o gofnodion dalfa gan Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd. | |


## Gweithiwr gofal iechyd proffesiynol

- O'r 21 o achosion a adolygwyd, roedd angen i 19 weld gweithiwr gofal iechyd proffesiynol a dim ond un achos o oedi a fu cyn i unigolyn yn y ddalfa gael asesiad iechyd. Nododd yr aelod o'r panel nad roddwyd unrhyw sail resymegol am yr oedi.








## Dillad Risg Arbennig a Defnyddio Grym




























Yn gyffredinol, nododd y panel, yn y pum achos o ddefnyddio dillad risg arbennig, fod pob un o’r pump yn nodi’r rhesymeg fod dillad yr unigolyn ifanc yn peri risg o gortynnau.Mewn un achos, ni chofnodwyd y rhesymeg dros ddefnyddio dillad risg arbennig.


- Roedd gan y panel y sylwadau canlynol ynghylch coch, melyn, gwyrdd:


a) Roedd yr unigolyn yn y ddalfa yn cael gofal da. Nid oedd unrhyw nodiadau i awgrymu unrhyw bryder bod yr unigolyn mewn unrhyw niwed tra yn y ddalfa. Roedd asesiad risg da a oedd yn cynnwys gwendidau yr unigolyn yn y ddalfa yn ymwneud â hunan-niweidio neu iechyd meddwl.





b)Mae'n ymddangos bod rhesymeg dros ddefnyddio dillad risg arbennig wedi’i hepgor o'r cofnod.

## Noeth-chwiliad




Nododd yr aelod o'r panel mai'r rheswm a nodwyd i'r unigolyn ifanc yn y ddalfa gael ei noeth-chwilio oedd bod ei ddillad yn llaith ac â chortynnau. Yn yr achos penodol hwn nid oedd oedolyn priodol yn bresennol.

**Iechyd Meddwl, Oedolion Priodol a Gwendidau Eraill**






Dywedodd y panel ym mhob un o'r 21 o achosion a adolygwyd y barnwyd bod angen oedolyn priodol, y cysylltwyd â phob un yn unol â hynny.
Yr amser cyfartalog i swyddog y ddalfa gysylltu ag oedolyn priodol oedd 2 awr a 57 munud, a'r amser cyfartalog i'r unigolyn ifanc gael cyswllt ag oedolyn priodol am y tro cyntaf oedd 2 awr a 2 funud.
O'r rhesymeg a ddarparwyd, dywedodd y panel fod yr oedi oherwydd:

1. Dau achos o'r unigolyn yn y ddalfa yn cysgu.
2. Roedd yn rhaid i'r oedolyn priodol deithio o bell.
3. Yr adeg o'r nos pan ddarparwyd yr alwad.

- Gofynnwyd i'r panel am eu harsylwadau, mewn perthynas â sut yr oedd staff y ddalfa'n ymdrin â phryderon iechyd meddwl yn y ddalfa. Nododd y panel:
  a) Cofnododd staff y ddalfa wybodaeth am bryderon iechyd meddwl yn gynhwysfawr.
  b) Roedd enghraifft o'r person ifanc yn cyfeirio bod ganddo ADHD, a oedd yn gwrthdaro â phresgripsiwn ei feddyg.
  c) Roedd un achos lle cafodd plentyn ddiagnosis o awtistiaeth am y tro cyntaf tra yn y ddalfa.
  d) Roedd staff y ddalfa yn defnyddio eu harsylwadau ochr yn ochr â dogfennu sylwadau a godwyd gan yr unigolyn ifanc.


## Plant yn y Ddalfa










Y rhesymau a nodwyd dros gadw unigolyn ifanc dros nos yn y ddalfa oedd:

- Nid oedd yr unigolyn yn y ddalfa yn ymgysylltu'n llawn.
- Gwrthodwyd mechnïaeth iddo.
- Nid oedd yn briodol i'r unigolyn ifanc ddychwelyd i'r cartref gofal.
- Nid oedd yn briodol dychwelyd i'r cartref maeth, am fod y digwyddiad wedi digwydd yn y lleoliad hwn.
- Nid oedd y gwasanaethau cymdeithasol yn gallu darparu llety arall.










Nododd y panel:

- Mewn un achos, darparwyd nodiadau da, clir heb unrhyw bryderon. Ystyriwyd ei fod yn cael ei drin yn briodol ac yn amserol.
- Ar bum achlysur, ni chwblhawyd y rhestr wirio 23 pwynt.
- Mewn un mater adeg cyraeddadwy', ni chymerwyd unrhyw gamau oherwydd i'r swyddog nodi nad oedd wedi derbyn unrhyw hyfforddiant ar y pwnc.
- Problemau gyda diffyg llety amgen.

## Sgôr Cyffredinol




- Gofynnwyd i'r panel roi sgôr allan o bump ar ddiwedd pob cofnod dalfa, gyda'r arweiniad bod un yn golygu bod angen gwelliant a phump yn rhagorol.
- Y sgôr gyfartalog gyffredinol a gafodd y panel ar gyfer plant yn y ddalfa allan o'r 21 o gofnodion dalfa a adolygwyd oedd 4.2.